

RHAGLEN DIWYGIO GWASANAETHAU DEINTYDDOL CYFFREDINOL LLYWODRAETH CYMRU

Digwyddiad Ymgysylltu | Rhithwir | 9 Mawrth 2022

Adroddiad Gwerthuso ac Adborth ar y Digwyddiad

Crynodeb o'r Digwyddiad

Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyfuniad o gyflwyniadau a sesiynau trafod i alluogi'r rhai a oedd yn bresennol i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag ailddechrau Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol o fis Ebrill 2022, gan gynnwys yr hyn y mae disgwyl i bractisau sy'n dewis ymuno â'r broses ddiwygio ei gyflawni yn 2022/23. Fel rhan o'r digwyddiad, cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i gymryd rhan mewn sesiwn Holi ac Ateb ar Raglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol neu drafodaeth wedi'i hwyluso ar heriau sy'n berthnasol i wasanaethau deintyddol cymunedol yng Nghymru. Y bwriad oedd cyflwyno'r digwyddiad hwn ar lefel a fyddai'n addas i bawb a oedd yn bresennol, o'r rhai a oedd eisoes â rhywfaint o brofiad o'r broses ddiwygio a hefyd ar gyfer y rhai nad oeddent wedi bod yn rhan o'r rhaglen o'r blaen.

Nodau'r Digwyddiad

Yn y cyfnod cyn cam nesaf diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, gan gynnwys y cynnig o gytundeb amrywio contract newydd ar gyfer practisau, nod y digwyddiad hwn oedd rhoi'r cyfle i bractisau gael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau ar gyfer 2022/23 ac i ofyn cwestiynau a chodi pryderon ynghylch y metrigau arfaethedig ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio. Nod arall y digwyddiad oedd rhoi manylion i'r timau deintyddol am yr opsiynau sydd ar gael iddyn nhw ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Cynlluniwyd Digwyddiad Ymgysylltu Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol er mwyn rhoi cyfle i gynrychiolwyr:

- **Glywed** gan weithwyr proffesiynol sydd wedi bod yn rhan o'r broses ddiwygio hyd yn hyn a rhai o'r sefydliadau sy'n ymwneud â gwaith Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
- **Cael** gwell dealltwriaeth o'r wybodaeth am fetrigau a ddarparwyd yn llythyr y Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol ar gyfer 2022/23
- **Cymryd rhan** mewn sesiwn drafod ar ffurf sesiwn Holi ac Ateb ar Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a COVID19 neu drafodaeth wedi'i hwyluso am effeithiau'r rhaglen ddiwygio ar Wasanaethau Deintyddol Cymunedol

Roedd agenda'r digwyddiad yn cynnwys

- Gair o groeso gan:
 - o **Eluned Morgan AS**, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
 - o **Julie Denley**, Cyd-gadeirydd Grŵp Goruchwylio Strategol Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol, a Chyfarwyddwr Iechyd Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, BIPCTM
- Cyflwyniadau (cymysgedd o gyflwyniadau wedi'u recordio ymlaen llaw a chyflwyniadau byw) gan:
 - o **Ewart Johnstone**, Addysgwr Deintyddol (Tîm y De-orllewin), Tîm Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol ac Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol - *Myfyrdodau Clinigydd: Cyfleoedd a heriau gweithio mewn system nad yw'n rhan o Uned o Weithgaredd Deintyddol*
 - o **Kirstie Moons**, Deon Deintyddol Ôl-raddedig, AaGIC - *Heriau a Chyfleoedd y Gweithlu Deintyddol*
 - o **Warren Tolley**, Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol - *Mesurau Cyflawni Allweddol ar gyfer 2022/2023*

- Dwy sesiwn ystafell drafod
 - o Ystafell Draford 1 – Sesiwn Holi ac Ateb ar Ddiwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
Dan gadeiryddiaeth Rob Davies, Cyfarwyddwr Clinigol Cyswllt, BIPCTM a chyda phanel yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, ICC, Awdurdod Gwasanaeth Busnes y GIG, AaGIC a phob Bwrdd Iechyd yng Nghymru
 - o Ystafell Draford 2 – Gweithdy: Goblygiadau Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ac Effaith COVID-19 ar Wasanaethau Deintyddol Cymunedol
Wedi'i hwyluso gan Dr Ilona Johnson, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cynnwys Cyfarwyddwyr/Dirprwyon y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol ac eraill o bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.


Canfyddiadau'r Gwerthusiad

Cyflawni diben/nodau ac effeithiau ehangach (Effeithlonrwydd ac Effaith)


Mynychodd dros 500 o bobl y digwyddiad a chwblhawyd 91 o ffurflenni adborth. Ymhlith y rhai a gwblhaodd y ffurflenni roedd:

- 71 Deintydd
- 8 Rheolwr Practis:
- 4 Therapydd
- 2 Nyrs Ddeintyddol
- 1 Tiwtor Deintyddol Ôl-raddedig
- 1 Perchennog Practis
- 4 na wnaeth nodi eu statws


Roedd yr atebion a gafwyd i 4 cwestiwn cychwynnol **O ganlyniad i'r digwyddiad hwn** fel a ganlyn:




Rwy'n deall prif nodau Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol



Cefais gyfle i drafod/gael atebion i fy ymholiadau am Raglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn ystod y digwyddiad ymgysylltu



Rwy'n gwybod â phwy i gysylltu yn y bwrdd iechyd, neu rywun o raglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, os oes gennyf gwestiwn neu adborth am y rhaglen



Nodweddion cadarnhaol y digwyddiad yn gyffredinol

Roedd sylwadau yn yr adborth gan gynrychiolwyr ar rannau mwyaf defnyddiol y digwyddiad ymgysylltu yn cynnwys y themâu canlynol.

Gwybodaeth gyffredinol a ddarparwyd

- Roedd y trosolwg strategol yn ddefnyddiol
- Darparwyd llawer o wybodaeth ynglŷn â'r cynnig i amrywio'r contract
- Roedd yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol ddarganfod beth sy'n digwydd yn y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol gan ei fod yn cael effaith uniongyrchol
- Esboniadau o ddangosyddion perfformiad allweddol
- Trosolwg da o'r cynigion
- Cafodd rhai cwestiynau eu hateb gan y digwyddiad
- Roedd yn ddefnyddiol deall y cefndir i ddiwygio'r contract a pharamedrau'r hyn fydd ei angen wrth symud ymlaen

Cyflwyniadau

- Roedd y cyflwyniadau rhagarweiniol wedi'u recordio yn ddefnyddiol
- Roedd yn ddefnyddiol clywed cyflwyniadau gan siaradwyr o'r gwahanol sefydliadau
- Cyflwyniad gan y Dirprwy Brif Swyddog Deintyddol yn rhoi manylion am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd mewn gwirionedd a sut y gellir ei roi ar waith
- Roedd yn dda cael crynodeb o'r hyn a fwriedir/a ragwelir
- Roedd cyflwyniad AaGIC yn ddiddorol
- Roedd yn ddefnyddiol clywed gan ymarferwr sydd eisoes yn rhan o broses diwygio'r contract
- Cyflwyniad gan glinigydd ynglŷn â sut maent yn defnyddio cymysgedd sgiliau

Sesiynau Trafod

- Y Sesiwn Holi ac Ateb oedd yr agwedd fwyaf defnyddiol (x 4 o ymatebion)
- Cafwyd atebion llawer mwy ymarferol i gwestiynau drwy'r sesiwn holi ac ateb
- Roedd y sesiwn holi ac ateb yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol
- Cafodd y sesiwn holi ac ateb ei gadeirio'n dda
- Trafodaeth ynghylch cofnodi metrigau a mynediad at ddata, adolygiad canol blwyddyn ac opsiynau i adolygu nifer y cleifion a ddisgwylir os oes angen mawr
- Hwyluswyd trafodaeth y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn dda

Cyfle i glywed gan gydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

- Cael y cyfle i glywed bod cydweithwyr ar hyn o bryd yn rhannu'r un pryderon a rhwystredigaethau ynghylch y rhaglen ddiwygio
- Cyfle i glywed barn a chwestiynau cydweithwyr yn y proffesiwn
- Cyfle i glywed gan nifer o weithwyr proffesiynol o wahanol feysydd
- Cyfle i bobl fynegi eu pryderon
- Roedd yn dda trafod problemau ar y cyd gyda'r grŵp Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol

Trefniadaeth y digwyddiad

- Wedi'i drefnu'n dda gyda rhanddeiliaid yn cyflwyno pwyntiau lefel uchel yn gyntaf.
- Roedd llawer o ôl meddwl ar yr ystafell holi ac ateb
- Yn drefnus ac yn agored i bawb glywed

Arall

- Presenoldeb da
- Roedd y digwyddiad cyfan yn ddefnyddiol iawn
- Natur agored a oedd yn galluogi pobl i siarad yn blwmp ac yn blaen

Meysydd i'w Gwella

Amlygwyd y meysydd canlynol i'w gwella o'r sylwadau yn yr adborth a gafwyd ynglŷn â rhannau lleiaf defnyddiol y digwyddiad ymgysylltu.

Cwestiynau heb eu hateb yn y sesiwn Holi ac Ateb

Roedd llawer o'r rhai a oedd yn bresennol o'r farn bod nifer o gwestiynau yn dal heb eu hateb neu heb eu hateb yn ddigon manwl. Cydnabuwyd mai'r rheswm am hyn oedd y niferoedd mawr a oedd yn bresennol, ond nododd y rhai a oedd yn bresennol eu siom nad oedd cyfle i'r rhai a oedd yn holi

cwestiynau ymateb neu gael eglurhad ar ôl i'w cwestiynau gael eu hateb. Roedd eraill o'r farn nad oedd eu cwestiynau wedi cael sylw o gwbl. Roedd pryder ynghylch diffyg amser i adolygu'r Cwestiynau Cyffredin nesaf cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch ymrwymo i ddiwygio'r contract. Roedd llawer yn siomedig oherwydd y niferoedd mawr a oedd yn bresennol, gan ei fod yn rhwystro unrhyw gyfle gwirioneddol i drafod. Roedd llawer o gynrychiolwyr yn anhapus na allent gael atebion byw i'w cwestiynau yn ystod y sgwrs. Roedd eraill o'r farn fod pobl yn defnyddio'r sesiwn Holi ac Ateb i rannu problemau, yn hytrach na gofyn cwestiynau am y newidiadau.

Cyflwyniadau a negeseuon wedi'u recordio

Nododd rhai a oedd yn bresennol nad oedd adran cyflwyniadau'r digwyddiad yn rhoi digon o fanylion am y newidiadau sydd i ddod. Nid oeddent yn mynd i'r afael â'r holl bwyntiau yr oedd cynrychiolwyr wedi gobeithio y byddent yn cael sylw a/neu nid oeddent yn darparu unrhyw wybodaeth newydd neu ddefnyddiol. Roedd cynrychiolwyr eraill o'r farn nad oedd yr adran cyflwyniadau yn wirioneddol angenrheidiol ac y byddai wedi bod yn fwy buddiol cael rhagor o amser yn y sesiwn Holi ac Ateb. Nododd rhai cynrychiolwyr na ddylid bod wedi trafod materion yn ymwneud â'r gweithlu a chymysgedd sgiliau yn y digwyddiad hwn. Er eu bod yn cydnabod bod y rheini'n faterion pwysig, roeddent o'r farn y dylai'r cynnig ar gyfer diwygio fod wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer y digwyddiad hwn ac y gellid bod wedi trafod meysydd eraill, megis y gweithlu a chymysgedd sgiliau, yn y dyfodol.

Amserlen dynn

Codwyd llawer o bryderon ynghylch pa mor hwyr y cafwyd manylion y metrigau a'r digwyddiad ymgysylltu, yn ogystal â'r diffyg amser i adolygu Cwestiynau Cyffredin ar ôl y digwyddiad, cyn bod angen i bractisau benderfynu'n derfynol ai llofnodi'r amrywiad i'r contract diwygio yw'r penderfyniad cywir iddyn nhw ar gyfer 2022/23. Mynegwyd siom nad yw'r cynigion yn cynnwys unrhyw amser gwirioneddol i ymgynghori cyn eu rhoi ar waith. Nododd rhai cynrychiolwyr hefyd fod y digwyddiad ymgysylltu wedi'i drefnu'n frysog a'i fod wedi'i amserlennu'n rhy hwyr i gael unrhyw effaith wirioneddol ar y penderfyniadau y byddai'n rhaid i bractisau eu gwneud.

Gwahanu Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol

Nodwyd bod gwahanu/ffrydio elfennau o'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol yn rhan llai defnyddiol o'r digwyddiad gan ei fod yn golygu nad oedd unrhyw fewnbwn gan Wasanaethau Deintyddol Cymunedol yn uniongyrchol i'r grŵp Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. Roeddent yn sylweddoli nad oedd y digwyddiad penodol hwn o bosibl wedi gweithio'n gyfan gwbl, ond tynnwyd sylw at y ffaith bod angen i Wasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol weithio/ymgysylltu â'i gilydd wrth symud ymlaen.

Materion Technegol

Cafodd rhai cynrychiolwyr broblem wrth ymuno â'r prif ddigwyddiad a'r ystafelloedd trafod, oherwydd bod niferoedd mawr yn ymuno ar yr un pryd. Achosodd hyn iddyn nhw golli rhai o'r cwestiynau a gwybodaeth ynglŷn â sut yr oedd y sesiwn yn mynd i gael ei chynnal.

Sylwadau Ychwanegol am y digwyddiad

- Roedd yn ymddangos bod nifer o'r rhai a oedd yn gofyn cwestiynau i'r panel wedi'u llethu gan y newidiadau. Gobeithio y bydd digon o gefnogaeth ar gael os bydd/pan fydd ei hangen
- Nid oedd yr ateb a roddwyd i rai cwestiynau sef 'mae'n flwyddyn ddysgu' yn ddefnyddiol iawn o ran cynllunio
- Roedd llawer o'r sylwadau a'r cwestiynau yn cael eu hailadrodd yn y cyfleuster sgwrsio, yn hytrach na disgwyl iddyn nhw gael eu hateb

Adnoddau'r Digwyddiad

- Gellir gweld holl adnoddau'r digwyddiad drwy'r ddolen ganlynol:
[lechydd Deintyddol Cyhoeddus - Gofal Sylfaenol Un \(gig.cymru\)](https://www.youtube.com/playlist?list=PLbcTDRg1C1lustY3biHTaIFHHPItmuYUZ)
<https://www.youtube.com/playlist?list=PLbcTDRg1C1lustY3biHTaIFHHPItmuYUZ>

Diolch i bawb a roddodd adborth.

Bydd yr holl sylwadau ac awgrymiadau uchod yn cael eu hystyried wrth gynllunio digwyddiadau yn y dyfodol.

Bydd sylwadau/adborth ychwanegol a gafwyd mewn perthynas â Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn gyffredinol, yn hytrach na'r digwyddiad ei hun, hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith ar y rhaglen yn y dyfodol.